# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta

15 Mehefin 2023, 12:00 – 13:15
Microsoft Teams

## Yn bresennol

Amelia Holt
Jonathan Kelly
Hajrah Khan
Sarah Murphy AS
Helen Low
Euan Hails
Sarah Hanney
Sarah White
Kate Meredith
Dr Nia Holford
Dr Natalie Chetwynd
Sarah Williamson
Katherine Lowther
Emma-Jayne Hagerty
Naomi Swift
Bethan Wilson
Gemma Johns
Alka Ahuja
Vicky Daniels
Tamsin Speight

| 1. Croeso ac ymddiheuriadau | |
|---|---|
| **CAFWYD**: Ymddiheuriadau gan aelodau absennol:<br>Jo Whitfield<br>Mike Hedges AS<br>Emily Hoskins<br>Georgia Taylor | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau i'w cymryd / materion sy'n codi** | **Camau i'w cymryd** |
| Rhoddodd Amelia Holt y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ar ran Jo Whitfield.<br><br>Gwahoddwyd PGIAC i'r cyfarfod nesaf yn yr hydref. | |
| **3. Ysgolion a'u rôl o ran adnabod anhwylderau bwyta'n gynnar a'u hatal** | **Camau i'w cymryd** |
| Rhoddodd Sarah Murphy y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n digwydd mewn ysgolion i adnabod unigolion ag anhwylderau bwyta. Tynnodd sylw at effeithiau negyddol posibl rhai o ddulliau gweithredu Pwysau Iach, Cymru Iach. Dywedodd ei bod wedi codi hyn gyda'r Gweinidog Iechyd, a pham y gallai rhai o'r rhain fod yn niweidiol. | Sarah Murphy i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn yn y cyfarfod nesaf. |

| | |
|---|---|
| Tynnodd Sarah Murphy hefyd sylw at yr angen i sicrhau cydbwysedd o ran y negeseuon ynghylch materion sy'n ymwneud â bwyd a phwysau. Soniodd Sarah Williamson o'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) am ei phryderon ynghylch labelu calorïau ar fwydlenni (CLOM). Dywedodd Euan Hails fod Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (RCP) hefyd yn llunio datganiad safbwynt. Mae'r RCN a'r RCP yn awyddus i CLOM gael ei atal am y tro (fel yn yr Alban) neu iddo beidio â chael ei weithredu o gwbl. Bydd yr RCN, yr RCP a Beat yn cynnal sesiwn galw heibio i Aelodau o'r Senedd, i dynnu sylw at safbwynt pobl sy'n siarad o brofiad ar CLOM.<br><br>Dywedodd Tamsin Speight ei bod yn angerddol ynghylch cymorth mewn ysgolion, ac y dylem fod yn edrych ar raglenni atal y profwyd eu bod yn effeithiol, e.e. The Body Project ac eraill. Dywedodd y gallai fod yn heriol gweithredu'r rhaglenni hyn oherwydd pryderon ynghylch staffio mewn ysgolion. Dywedodd Sarah Murphy y gallem ystyried gwahodd rhywun sy'n darparu'r sesiynau hyn i'r Grŵp Trawsbleidiol. | |
| **4. Arferion gorau** | |
| Rhoddodd Hajrah Khan a Helen Low gyflwyniad ar arferion gorau anghlinigol. Soniodd Helen am ei phrofiadau hi ei hun o CAMHS a gwasanaethau i oedolion, a phrofiadau ei rheini. Siaradodd yn benodol am yr heriau sydd ynghlwm wrth symud o'r naill i'r llall. Diolchodd y grŵp i Helen am rannu ei phrofiadau, a soniodd Sarah Murphy am ei phrofiad hithau. Tynnodd SM sylw at adroddiad 'Sortiwch y Switsh' Mind Cymru. Siaradodd Emma Hagerty am yr heriau y mae gwasanaethau anhwylderau bwyta'n eu hwynebu wrth geisio rhyngweithio â thimau iechyd meddwl oedolion cyffredinol. Dywedodd Euan Hails fod angen gwaith ar symud o'r naill wasanaeth i'r llall a gwasanaeth ieuenctid i bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed. | Beat i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith sy'n ymwneud ag arferion gorau yn y cyfarfod nesaf. |
| **5. Y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Arweinydd Clinigol ar Anhwylderau Bwyta a Law yn Llaw at Iechyd Meddwl - Ymgynghoriad ar y Strategaeth 10 mlynedd** | |
| Mae Tamsin wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am y wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth. Gofynnodd beth yw'r ffordd orau i ni fel cymuned anhwylderau | |

| | |
|---|---|
| bwyta gyfrannu at yr ymgynghoriad.<br><br>Rhoddodd Tamsin wybodaeth i ni am ei gwaith fel Arweinydd Clinigol ar Anhwylderau Bwyta. Dywedodd ei bod wedi edrych yn y gorffennol ar heriau o ran cael gafael ar wasanaethau arbenigol a darparu hyfforddiant i staff Timau Iechyd Meddwl Cymunedol er mwyn cynnig therapïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dros y misoedd diwethaf, mae wedi bod yn dod i adnabod ei thîm a'r gymuned anhwylderau bwyta ehangach ac yn ymgyfarwyddo â'i briff. Mae wedi canolbwyntio hyd yma ar hyfforddiant, gweithredu canllawiau Argyfyngau Meddygol mewn Anhwylderau Bwyta (MEED), a phosibilrwydd cael un pwynt mynediad ar gyfer triniaethau. Dywedodd Euan Hails fod un pwynt mynediad yn gweithio'n dda yn CAMHS AB.<br><br>Dywedodd Tamsin hefyd eu bod am recriwtio rheolwr prosiect i gefnogi ei gwaith. Dywedodd Sarah Murphy fod angen i swydd Tamsin fod yn un amser llawn, hirdymor.<br><br>Gofynnodd Helen Low a oes cynlluniau ar waith i sicrhau bod staff mewn lleoliadau gofal iechyd brys wedi cael hyfforddiant anhwylderau bwyta. Dywedodd Tamsin fod hyn yn bwysig a'u bod yn gweithio tuag at hynny, a'i bod yn bwysig gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig.<br><br>Gofynnodd Sarah gwestiwn ynghylch yr angen am welyau cleifion mewnol a sut yr oedd Tamsin yn gweld hynny'n mynd rhagddo. Dywedodd Tamsin fod angen i ni aros i weld beth fydd canlyniad adolygiad PGIAC, a bod llawer o opsiynau o ran gwelyau cleifion mewnol y mae angen edrych arnynt.<br><br>Soniodd Annalise Ayre am ei phrofiadau hithau a'r rhwystrau a wynebwyd ganddi wrth iddi geisio dod o hyd i driniaeth oherwydd ei chydafiacheddau. Tynnodd sylw at bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig pan fo gan bobl gyflyrau iechyd eraill neu pan fônt yn niwrowahanol, er mwyn sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu. Mae ymyrraeth gynnar yn bwysig, ond ni ddylid gadael pobl sydd wedi mynd ymhellach ar siwrnai | |

| | |
|---|---|
| eu salwch ar ôl.<br><br>Pwysleisiodd Sarah fod sicrhau bod PGIAC yn dod i'n cyfarfod nesaf yn flaenoriaeth bwysig. | |
| **6. Caloriau ar Fwydlenni - y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth arfaethedig yng Nghymru** | |
| Trafodwyd hyn o dan eitem 3. | |
| **7. Adolygu'r camau i'w cymryd a dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| Sarah Murphy i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith mewn ysgolion yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Beat i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith sy'n ymwneud ag arferion gorau yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Cymeradwyodd y grŵp gofnodion y cyfarfod diwethaf a chytunwyd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf ar ôl toriad yr haf. Cytunodd Amelia Holt i gylchredeg y dyddiad yn ystod y misoedd nesaf.<br><br>Diolchodd Sarah Murphy i bawb am eu hamser. | |